

Gellir defnyddio'r adeilad ar sawl ffurf, yn amodol ar ddatblygiad cynllun busnes dichonol, gyda thri phrif faes arfaethedig a allai gydweithio er mwyn cefnogi'r gymuned, manteisio i'r eithaf ar y fasnach sy'n teithio heibio a cheisio denu pobl i'r pentref.

1. Caffi bach sy'n cynnig tameidiau bach (brecwast a chinio)
2. Addysg – modd i fanteisio ar gyrsiau er mwyn i bobl allu datblygu sgiliau a datblygu eu microfusnes eu hunain (er enghraifft sgiliau diwydiant bwthyn traddodiadol a chrefftau).
3. Prosiect tyfu cymunedol, gan roi cynnig ar dyfu blodau a chynnyrch a rhannu sgiliau a'r buddion iechyd ynghlwm â thyfu planhigion.

At hyn, gellir defnyddio'r adeilad fel canolfan gymunedol, gan gynnig nifer o wasanaethau a chymorth yn y pentref. Fodd bynnag, dim ond awgrymiadau cychwynol ydy'r rhain yn ystod y cam hwn ac fe fydd y prosiect yn esblygu wrth i'r gymuned gyfrannu eu syniadau ac adnabod anghenion.

Rydym ond megis cychwyn datblygu'r prosiect a dyma'r tri cham allweddol cyntaf:

- Cynnal ymgynghoriadau cymunedol i ganfod yr hynny mae'r bobl ei eisiau a'i angen,
- Ffurio grŵp llywio a fyddai'n bwrw iddi gyda'r prosiect, ac
- Yn amodol ar gymorth eang gan y gymuned, ennill cyllid i gynnal astudiaeth dichonoldeb, datblygu cynllun busnes ac os ydy'r rhain yn llwyddiannus, mynd ati i geisio am gyllid grant.

Mae Menter Siabod wedi cytuno'n garedig iawn i ffurfio is-bwyllgor / grŵp llywio i gyflawni cam un (ymgynghoriadau cymunedol ac astudiaeth dichonoldeb). Mae Menter Siabod yn fudiad cymunedol sy'n hen law ar ennill cyllid grant a chyflawni amcanion grantiau. Gan eu bod wedi cytuno i gefnogi'r prosiect hwn, maen nhw wedi cynyddu'r tebygolrwydd o ennill cyllid grant ar gyfer cam un. Bydd yr astudiaeth dichonoldeb yn cynnig cyngor ar opsiynau ar gyfer ffurfio mudiad newydd, pe bai'r prosiect yn datblygu ymhellach.

***I gychwyn arni gyda'r broses hon, byddwn yn cynnal diwrnod agored, o 12yp – 4yp ar ddydd Sadwrn Medi'r 10<sup>fed</sup>, 2022 yn y Pafiliwn. Bydd croeso i bobl ddod draw, mwynhau sgwrs a phaned, tamaid o gacen yn ogystal â rhannu syniadau a chynnig awgrymiadau.***

*Sue Layland ac Liz Roberts*